lgps | Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund



# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Polisi Strategaeth Fuddsoddi Dybiannol Disgresiynol

Mawrth 2026

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

Trosolwg o'r Trefniant .......... 2
Gofynion ar gyfer ystyried cais ar gyfer y trefniant hwn .......... 3
Cymhwyso'r Trefniant .......... 3
Y Broses ar gyfer Gwneud Cais am Symud i'r Trefniant Hwn .......... 5
Y Broses Adolygu .......... 6
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed .......... 6

## Trosolwg o'r Trefniant

Pan fydd cyflogwr yn peidio â chymryd rhan yn y Gronfa (pan fydd y cyfrannwr gweithredol olaf yn dod i ben) mae'r cyflogwr wedyn yn dod yn "gyflogwr sy'n ymadael" o dan y Rheoliadau. Yna mae'n ofynnol i'r Gronfa gael prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau'r cyflogwr hwnnw mewn perthynas â buddion cyn-weithwyr y cyflogwr sy'n ymadael, ynghyd â thystysgrif cyfraniad terfynu sy'n dangos unrhyw ddyled ymadael neu gredyd ymadael sy'n ddyledus gan neu i'r cyflogwr sy'n ymadael.

Ar gyfer rhai cyflogwyr (y rhai heb warantwr o fewn y Gronfa) mae'r asesiad hwn yn ymgorffori sail asesu fwy gofalus, risg is fel y manylir yn Atodiad F o Ddatganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa: Polisi Terfynu, Hyblygrwydd ar gyfer Taliadau Ymadael a Chytundebau Dyledion Gohiriedig.

Yn hanesyddol, mae'r Gronfa wedi gweithredu strategaeth fuddsoddi sengl sy'n berthnasol i bob cyflogwr sy'n cynnwys cyfran sylweddol o asedau risg uwch gyda'r nod o gefnogi darpariaeth buddion cost-effeithlon hirdymor i gyflogwyr parhaus. Yn achos cyflogwyr sy'n ymadael â'r Gronfa ar sail risg is, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ymwybodol y gallai hyn arwain at ddyledion ymadael sy'n fawr ac yn anwadal, a fyddai'n lleihau sicrwydd cyllido cyflogwr sy'n ymadael.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, lle mae cyflogwyr yn ymwybodol eu bod yn agosáu at ddiwedd eu cyfranogiad o fewn y Gronfa ac yn bwriadu cynllunio eu strategaeth ymadael, gallant ofyn am gymhwyso strategaeth fuddsoddi risg is dybiannol i leihau anwadalrwydd cyn ymadael (ac felly cyd-fynd yn well â'r newidiadau cyfan i'r rhwymedigaethau ymadael), a fydd yn cael ei hystyried yn ôl disgresiwn llwyr yr Awdurdod Gweinyddu.

Fodd bynnag, mae angen i gyflogwyr hefyd fod yn ymwybodol y bydd mabwysiadu'r dull hwn o bosibl yn arwain at oblygiadau i'w cyfraniadau at y Gronfa yn y cyfnod hyd nes y byddant yn rhoi'r gorau i gymryd rhan. Ni all cyflogwyr ddewis dychwelyd i'r trefniadau neu'r rhagdybiaethau blaenorol ar ôl i'r strategaeth fuddsoddi dybiannol gael ei chymeradwyo.

## Gofynion ar gyfer ystyried cais ar gyfer y trefniant hwn

Er mwyn i'r Awdurdod Gweinyddu ystyried cais cyflogwr i fabwysiadu strategaeth fuddsoddi dybiannol, rhaid i'r meini prawf canlynol fod yn berthnasol:

- Ar gau i newydd-ddyfodiaid
- Heb warantwr ac felly mae'r sail terfynu risg isel yn berthnasol
- Cyfranogiad disgwyliedig sy'n weddill o 5 mlynedd neu lai
- Wedi'i ariannu'n llawn ar sail terfynu risg isel

Yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu a phan gredir ei bod yn fuddiol i iechyd a diogelwch ariannol hirdymor y Gronfa a chyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan, gellir ystyried cyflogwyr penodol (nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf a restrir uchod) ar gyfer y trefniant hwn yn dilyn cais gan gyflogwr i reoli risg y cyflogwr o fewn y Gronfa.

## Cymhwyso'r Trefniant

Trwy symud i strategaeth fuddsoddi risg isel dybiannol, bydd rhwymedigaethau'r cyflogwr ar adeg newid strategaeth ac ym mhob prisiad actiwaraidd dilynol cyn terfynu yn cael eu hasesu ar gyfradd ddisgownt yn seiliedig ar yr adenillion buddsoddi disgwyliedig darbodus ar y strategaeth wedi'i dadrisgio. Bydd hyn yn unol â'r hyn a gymhwysir ar gyfer y sail terfynu sail risg is fel y manylir yn Atodiad F o Ddatganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (Polisi Terfynu, Hyblygrwydd ar gyfer Taliadau Ymadael a Chytundebau Dyledion Gohiriedig). Yn ogystal, bydd y rhagdybiaeth chwyddiant yn cael ei haddasu i fod yn unol â'r rhagdybiaethau sail terfynu sail risg is i gyd-fynd yn well â'r sefyllfa wrth derfynu. Mae hyn yn darparu strategaeth fuddsoddi dybiannol sy'n gysylltiedig â giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai sy'n cyfateb i hyd rhwymedigaethau'r cyflogwr. Nid yw'n cyd-fynd yn llawn â'r rhwymedigaethau terfynu neu'n eu "cloi" am y rhesymau a amlinellir isod, ond mae'n caniatáu mwy o sefydlogrwydd i gyflogwyr yn y cyfnod cyn ymadael.

Ar adeg newid strategaeth bydd cyfranddaliadau asedau'r cyflogwr yn cael eu cyfrifo yn unol â Pholisi Cyfranddaliadau Asedau'r Gronfa, fel y manylir yn Atodiad A o Ddatganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa. Ar gyfer pob prisiad actiwaraidd dilynol cyn terfynu ac ar adeg terfynu cyfranogiad, bydd yr Actiwari yn cymhwyso dull "dadansoddi gwarged" lle

bydd y sefyllfa gwarged/diffyg yn cael ei chyfrifo yn ôl eu henillion neu eu colledion actiwaraidd ers y prisiad blaenorol (neu ddyddiad newid strategaeth lle mae'n ddiweddarach).

Bydd y dadansoddiad hwn o'r dull gwarged yn unol ag Atodiad A o Ddatganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (Polisi Cyfranddaliadau Asedau) ac eithrio'r adenillion buddsoddi a fydd yn cael eu pennu i gyd-fynd â symudiadau mewn rhwymedigaethau dros y cyfnod sy'n deillio o newidiadau i'r gyfradd ddisgownt dybiannol a'r rhagdybiaeth chwyddiant oherwydd symudiadau'r farchnad.

Felly, gall newidiadau yn y sefyllfa gyllido ddeillio o'r canlynol:

- Cyfraniadau – I ba raddau y mae cyfraniadau (cyflogwr a gweithwyr) sy'n daladwy dros y cyfnod rhyng-brisio yn fwy/llai na chost y buddion sy'n cael eu cronni. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gostau straen ymddeol yn gynnar ac unrhyw gyfraniadau a dalwyd tuag at y rheiny dros y cyfnod.
- Profiad Aelodaeth – I ba raddau y mae profiad aelodaeth (e.e. twf cyflog, cynnydd mewn pensiwn, ymddeoliadau ar sail afiechyd, marwolaethau ac ati) wedi gwyro oddi wrth yr hyn a ddisgwylir yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad blaenorol (neu'r dyddiad newid strategaeth, os yw'n ddiweddarach).
- Taliadau Buddion – Ar y cyfan, bydd cyfanswm cyfunol y trosglwyddiadau a dderbyniwyd/a dalwyd (unigol a swmp), cyfandaliadau (ymddeoliad a marwolaeth), taliadau pensiwn, a thaliadau eraill i bobl sy'n ymadael yn niwtral fwy neu lai ar y dull "dadansoddi gwarged" gan eu bod yn effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau yn gyfartal, er y caniateir ar gyfer amseriad taliadau o'r fath.
- Newidiadau Data Aelodaeth a Throsglwyddiadau o fewn y Gronfa - Mae'r dull "dadansoddi gwarged" yn y pen draw yn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y data aelodaeth sylfaenol lle nad yw llif arian gwirioneddol yn dod i'r amlwg, yn benodol symudiadau aelodau unigol rhwng cyflogwyr o fewn y Gronfa (sy'n sbarduno taliad tybiannol "o fewn y Gronfa") a/neu ailddatgan unrhyw ddata aelodaeth sylfaenol rhwng prisiadau. Byddai effaith unrhyw drosglwyddiadau tybiannol i gyflogwyr newydd / gan gyflogwyr sy'n ymadael yn cael ei haddasu yn asesiad yr Actiwari.
- Newidiadau rhagdybiaethau demograffig – Effaith diwygiadau i'r rhagdybiaethau demograffig ar rwymedigaethau yn y prisiad actiwaraidd diweddaraf (gan gynnwys codiadau cyflog real a newidiadau mewn disgwyliad oes).

- Newidiadau deddfwriaethol – Effaith unrhyw ddiwygiad i'r buddion LGPS o dan y Rheoliadau.

Unwaith y bydd cyflogwr wedi symud i strategaeth fuddsoddi risg isel dybiannol, bydd ei gyfraniadau cyflogwr mewn perthynas â buddion sy'n cronni o'r dyddiad hwnnw yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer yr asesiad terfynu, yn hytrach nag ar sail gwasanaeth arferol yn y dyfodol ar gyfer asesu cyfraniadau cyflogwyr parhaus. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hasesu ar adeg newid strategaeth ac ym mhob prisiad actiwaraidd dilynol cyn terfynu. Yn gyffredinol, ar adeg newid, disgwylir i hyn arwain at gynnydd mewn gofynion cyfraniadau (sylfaenol ac eilaidd). Yn y dyfodol, a phopeth arall yn gyfartal, bydd mwy o sefydlogrwydd yn sefyllfa gyllido'r cyflogwr ac felly eu gofynion cyfraniadau eilaidd. Fodd bynnag, gall newidiadau o ran cyfraniad sylfaenol mewn asesiadau dilynol fod yn fwy anwadal oherwydd newidiadau i amodau'r farchnad.

## Y Broses ar gyfer Gwneud Cais am Symud i'r Trefniant Hwn

Os hoffai cyflogwr symud i strategaeth fuddsoddi risg is dybiannol, yna bydd y broses ganlynol yn berthnasol:

1. Rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r Gronfa o'i gais am ystyriaeth yn ysgrifenedig.
2. Bydd angen i'r Gronfa ystyried a yw'n briodol caniatáu'r newid mewn strategaeth, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.
3. Bydd y cyflogwr yn cael ei hysbysu am unrhyw newid mewn cyfraniadau a fydd yn berthnasol yn dilyn y newid (e.e. gall symud i'r strategaeth risg is dybiannol arwain at gynnydd mewn cyfraniadau gwasanaeth a diffyg yn y dyfodol). Er, yn ymarferol, y gellir gohirio'r newid mewn cyfraniadau tan y prisiad nesaf.
4. Gan dybio bod y Gronfa a'r cyflogwr yn fodlon bwrw ymlaen, bydd y Gronfa yn cytuno'n ysgrifenedig â'r cyflogwr ar ddyddiad priodol i'r newid ddod i rym – yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos.
5. Ni all cyflogwyr ddewis dychwelyd i'r trefniadau neu'r rhagdybiaethau blaenorol ar ôl i'r strategaeth fuddsoddi dybiannol gael ei chymeradwyo.

## Y Broses Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol a'i ddiweddaru'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau yn 2029 oni bai bod materion yn codi sy'n golygu bod yn rhaid adolygu'r polisi yn gynharach.

## Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

| | |
|---|---|
| Drwy'r Post: | Cronfa Bensiwn Dyfed<br>Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin<br>SA31 1JP |
| Drwy E-bostio: | pensiynau@sirgar.gov.uk |
| Dros y Ffôn: | 01267 224 893 |
| gwefan | www.cronfabensiwndyfed.org.uk |